# BUDDUGOLIAETH

# Y COR CYMREIG

YN Y

# CRYSTAL PALACE

## Yn 1872—73.

---

Mae llawer iawn o ieithoedd,
  Yn bod o fewn y byd,
Rhai feddant ar bob adeg
  Enwogrwydd mawr o hyd;
Ond er mor enwog ydynt,
  Ac er mor fawr eu bri,

Mwy anwyl a mwy enwog
  Yw'r hen Gymraeg i mi:
    Hen Gymru 'nawr i mi,
    Hen Gymru 'nawr i mi,
    Mwy anwyl a mwy enwog,
    Yw'r hen Gymraeg i mi.

Os gwelwyd ambell Gymro,
  Am wneyd ei hun yn Sais,
'Nol myn'd i wlad estronol,
  Y Saeson mawr eu trais,
Gan ddechreu gwadu yno,
  Hen iaith y Cymry cu;
Ond, gwaded ef a fyno,
  Yr hen Gymraeg i mi:
    Hen Gymru 'nawr i mi,
    Hen Gymru 'nawr i mi,
    Ond, gwaded ef a fyno,
    Yr hen Gymraeg i mi.

Pe bawn i wedi dysgu,
  Holl ieithoedd glân y llawr,
A gallu siarad ynddynt
  Yn gyflym ar bob awr;
Nis gallwn byth annghofio
  'R iaith gyntaf ddysgais i,
O na, mwy anwyl fyddai
  Yr hen Gymraeg i mi:
    Hen Gymru 'nawr i mi,
    Hen Gymru 'nawr i mi,
    O na, mwy anwyl fyddai
    Yr hen Gymraeg i mi.

Mae'r awel gref wrth dramwy
  Trwy goedydd Gwalia gu,
A'r gornant fach risialaidd,
  Yn dweyd Cymraeg i mi:
A'r chwim afonig fechan,
  Cymraeg ei chân yw hi;
Wel, bellach minau ganaf,
  "Yr hen Gymraeg i mi:"
    Yr hen Gymraeg i mi,
    Yr hen Gymraeg i mi,
    Wel, bellach minau ganaf,
    "Yr hen Gymraeg i mi."

---

Anturiodd ein cantorion—i fyny,
  Dan "*faner*" y Brython;
Ein Caradog, eurog wron—anwyl,
Pan doi'r egwyl, oedd y Pendragon.

Cywir ei dôn oedd "Côr y De,"—curasant
  Yn y "Crisial" fangre;
Hedai ei nwyf hyd y ne',—a'n goglais
A wnai'r hyfrydlais pan ar y "frawdle."

E darawodd dy orhoian—heidiau
  "Dysgybledig" *Proudman*
Yn fud—ond clyw lef pan—aruthr dyrfa.
"Encore" hon dora i'n cewri'n daran!

Ha! "Garadog" dy "Gôr" ydyw,—a gwn
Nad oes gôr o'i gyfryw;
"Côr Mawr Prydain Fawr" ef yw,--cyhoeddwyd-
Bedyddiwyd e'n "Gôr Mawr y Byd" heddyw.

*Pontypridd.* CARNELIAN.

---

Hwra! Hen Walia wiwlon,—curo'r byd,
Cario'r belt mae'th feibion;
E brawf eu hawl i'r Wobr hon,
Anturiaeth dy gantorion.

Drwy y byd yn dra buan,—e gludir,
Dy glodydd gwiw allan;
Pawb mwy—ïe, o bob man—
Gapiant am wel'd dy Gwpân.

*Merthyr.* ABRAM FARDD.

*William Williams, Argraffydd, Aberystwyth.*